Cymdeithas Rieni
Ysgol Gymraeg Castell-nedd
Parents' Association

Cofnodion Cyfarfod Nos Fercher, 11eg o Fawrth 2009
Minutes of Meeting Wednesday, 11th March 2009

***Presennol**/Present:*
Claire Lloyd West, Amanda Walters, Neil Mills, Mr T Jones, Louise Woollard, Angela James, Yasmin Pike, Paul Davies, Lisa Llewellyn, Rachel Davies, Leanne Gittins, Janet V Jones, Deb Robson- Brown, Sian Moore, Angharad Lukes, Dianne Edwards, Rhian, Catrin Lynch.

Ymddiheuriadau/*Apologies*: Sara Asher, Delyth Williams

Diolchodd Neil i bawb am ddod.
Neil thanked everyone for attending.

Cofnodion/*Minutes*
Yn annisgwyl nid oedd Sara yn y cyfarfod felly nid oedd cofnodion o'r cyfarfod diwethaf ar gael.
Sara was unexpectedly unable to attend the meeting therefore the minutes from the last meeting were not available.

Clwb Cant/*100 Club*
Nid oedd Delyth yn bresennol yn y cyfarfod felly nid oedd yn bosib tynnu Clwb Cant y mis hwn.
Delyth was unable to attend the meeting therefore it was not possible to draw this month's Clwb Cant.

Rhestr Dymuniadau Mr Jones/ *Mr Jones's Wish List*
Ysgrifennwyd y rhestr o ofynion staff. Awgrymodd Mr Jones efallai byddai'n well i ganolbwyntio ar eitemau mawr all bawb elwa trwy eu cael yn lle gorfod prynu llawer o bethau bach a'u rhannu. Cytunodd pawb dylid gwario'r arian er mwyn i'r plant elwa. Roedd Mr Jones yn awyddus i bawb i elwa o'r arian felly awgrymodd System Wrando. Pris bob uned yw £221 a gall 6 phlentyn wrando ar sgript neu gerddoriaeth ar yr un pryd. Mae gan yr ysgol system sydd yn gallu defnyddio casetiau'n unig, nid oes modd gwrando ar gryno ddisgiau ar hyn o bryd . Bydd angen nifer o unedau a chyfanswm y system yw tua £1500.
Mae angen tua 30 o atlasau, sy'n costio £9 yr uned: cyfanswm £270. Sgrin arddangos i'r neuadd newydd. Mae angen un fawr sy'n mesur 3m x 2.5m a fyddai'n costio tua £1900. Gallai sgrin fod o fantais i'r Gymdeithas Rieni oherwydd all gynnal nosweithiau fel Noson Rasio yno.
Cytunwyd i brynu'r sgrin ar gyfer y neuadd ac i brynu'r unedau gwrando. Awgrymodd Mr Jones fyddai'n syniad da i wneud buddsoddiad mewn adnoddau mathemateg hefyd. Mae system o'r enw Numicon ar gael sydd yn gostus. Talodd Mr Jones £600 ar gyfer pob dosbarth yn ei gyn ysgol. Bydd angen sawl uned gan yr ysgol a byddai pob plentyn yn elwa yn y pendraw. Penderfynwyd trosglwyddo'r arian i Mr Jones iddo gael penderfynu ar beth ddylid gwario'r arian. Bydd Mr Jones yn rhoi gwybod i'r gymdeithas ynglŷn â beth mae e wedi prynu gyda'r arian. Mae Neil yn mynd i drafod trosglwyddo'r arian gyda Delyth.
A list of requests was drawn up by the staff. Mr Jones suggested that it would be more beneficial to all if larger items were bough to benefit the whole school rather than lots of smaller items. It was agreed that it was better to spend that money for the children's benefit sooner rather than later. Mr Jones was keen for all pupils to benefit from the funds and therefore suggested a listening system. Each unit costs £221,

six pupils are able to listen at each unit at the same time. The school's existing system is quite old and only plays cassettes and not CD's. Several units would be required, costing £1500 in total. Approximately 30 atlases are needed by the school costing £9 per item, costing a total of £270. A projector screen for the new school hall was also requested. The required screen measures approximately 3m x2.5m which would cost around £1900, The screen would benefit everyone, even the PTA as the hall could then be considered to host Race Night in the future.
It was agreed therefore to purchase the projector screen and the listening units for the school. Mr Jones suggested investing in a mathematics resource for the school .The system in question is called Numicon and is quite expensive to buy. In Mr Jones's previous school he paid £600 for each class to use the new system. Several units would be required but all pupils would benefit in the long run. It was finally decided that the funds would be transferred over to Mr Jones who would make the decision as to how to spend the funds. He will report back to the PTA as and when the funds are spent.

Cystadleuaeth y 6 Chenedl/ ***6 Nations Competition***
Nid oedd y ffigurau terfynol ar gael eto. Trafodir y mater yn ystod y cyfarfod nesaf.
The figures of the amounts raised were not yet available, and will be discussed at the next meeting.

Caryl Parry Jones
Penderfynwyd cynnal noson gyda Caryl Parry Jones ar 10.7.09 yn Y Glynclydach Coach House neu The Towers. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hysbysebu'r noson. Bydd sawl digwyddiad ar y noson i godi arian gyda gwobrau ac offer o Duffy a Men Aloud. Penderfynwyd peidio cael bwffe ond efallai i osod 2 botel o win ar bob bwrdd; bydd Lisa a Claire yn ceisio gweithio rhywbeth allan gyda'r lleoliad. Bydd y Glynclydach yn costio £170 ar gyfer 200 o bobl. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y drws yn unig felly bydd aelodau'r Gymdeithas yn gallu mwynhau'r noson hefyd. Mae eisiau cadarnhau'r lleoliad cyn symud ymlaen gyda'r trefniadau ymhellach.
It was decided to hold the Caryl Parry Jones evening on 10.7.09 in the Glynclydach Coach House or The Towers. It was emphasized the need to publicize the evening as early as possible. There will be several means of raising money that night and prizes will include memorabilia from Duffy and Men Aloud. It was decided not to have a buffet but instead to place 2 bottles of wine on each table, Claire and Lisa to negotiate. The Glynclydach will cost £170 for 200 people. Volunteers will only be required on the door thus allowing all members of the PTA to enjoy the evening. The venue must be confirmed before any further plans for the evening are made.

MatchFunding
Lisa Llewellyn, Leanne a Sian i ymchwilio'r posibilrwydd o gael cymorth Banc Barclays, Community Chest a BP.
Lisa Llewllyn, Leanne and Sian to explore the possibility of match funding by Barclays Bank, Community Chest and BP.

Unrhyw Fater Arall/ *Any other Business*
Mae Paul Davies yn rhedeg ym Marathon Llundain mis nesaf. Mae e eisiau codi arian ar gyfer y Gymdeithas Rieni. Fel arfer mae e'n codi tua £1700. Mae e'n gofyn felly am gefnogaeth y Gymdeithas i godi'r arian. Mae Claire wedi cytuno i wneud taflenni hysbysebu i fynd allan i bob rhiant. Cynhelir y ras ar 26.4.09, gan ystyried mae diwedd tymor 3.04.09 mae eisiau cael y taflenni allan cyn gynted â phosib.

Paul Davies is to run the London Marathon and has decided that he would like to raise money this year for the PTA. He usually raises approximately £1700. He asked therefore for the support of the PTA in publicizing this fact. Claire has agreed to make and distribute flyers and sponsor forms. The race is on 26.4.09 and the end of term is 3.04.09 not returning until 20.4.09, therefore haste is required.

Blwyddyn 6/ *Year 6*

Codwyd y mater o Barti Ymadael i ddisgyblion Blwyddyn 6. Penderfynwyd trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

The matter was raised about a Leaving Party for Year 6 pupils. It was decided to discuss the matter further in the next meeting.

Sboncio Noddedig/ *Sponsored Bounce*

Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal Sboncio Noddedig yn y neuadd newydd. Dywedodd Mr Jones y byddai unrhyw drefniant yn dibynnu ar argaeledd y neuadd.

The possibility was discussed of holding a Sponsored Bounce in the new school hall. Mr Jones said that he would look into the matter which would depend on the new building being ready in time.

Cyfarfod Nesaf– 1af o Ebrill 2009 - 7 o'r gloch
CROESO I BAWB

Next Meeting – 1st April 2009 - 7.00pm
ALL WELCOME